# Y Pwyllgor Cynaliadwyedd

## SC(3)-24-08 (p.2): 27 Tachwedd 2008

## Papur cwmpasu ar gyfer is-bwnc defnyddio tir ymchwiliad y pwyllgor i leihau allyriadau carbon yng Nghymru

### Diben

1. Mae'r papur hwn yn gwahodd Aelodau i ystyried y papur cwmpasu ar gyfer is-bwnc defnyddio tir ymchwiliad craffu'r pwyllgor i leihau allyriadau carbon yng Nghymru.

### Cefndir

2. Yn ei gyfarfod ar 12 Gorffennaf 2007, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ei ymchwiliad craffu cyntaf i leihau allyriadau carbon yng Nghymru a chytuno ymhellach i rannu'r ymchwiliad yn gyfres o isbynciau er mwyn sicrhau proses gasglu tystiolaeth sy'n canolbwyntio'n deg ar bob pwnc. Yn fuan, bydd y pwyllgor yn cwblhau ei bedwerydd is-bwnc ar leihau allyriadau carbon o waith cynhyrchu ynni a bydd wedyn yn dechrau ar ei bumed is-bwnc ar leihau allyriadau carbon o ddefnyddio tir.

3. Mae'r papur cwmpasu yn Atodiad A yn nodi cwmpas arfaethedig is-bwnc defnyddio tir yr ymchwiliad, gan ganolbwyntio ar faterion allweddol a chyfrifoldebau datganoledig, y sefyllfa yng Nghymru a gwella effeithiolrwydd o ran carbon.

### Argymhelliad

4. Gwahoddir yr Aelodau i gytuno ar gwmpas is-bwnc defnyddio tir yr ymchwiliad i leihau allyriadau carbon.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Tachwedd 2008**